**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 18 Hydref 2018 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| D H Hopkins | A S Lewis | C E Lloyd |
| J A Raynor | M Sherwood | M Thomas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Neb

---

**70. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 76 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a gadawodd y cyfarfod cyn ei ystyried.

**71. Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cynhaliwyd cyfarfod y Cabinet ar 20 Medi 2018.

**72. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**73. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**74. Hawl i holi cynghorwyr.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**75. Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad, a oedd yn ceisio cyhoeddi Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017-2018. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i gwrdd ag Amcanion Lles y cyngor fel y'u disgrifir yn y Cynllun Corfforaethol ac i gwrdd â gofynion eraill a nodir mewn canllawiau statudol ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017-2018.

**76. Penodiadau LlywodraethwyrAwdurdod  Lleol.**

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Prif Swyddog Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

| | | |
|---|---|---|
| 1) | Ysgol Gynradd y Clâs | Lesley Evans |
| 2) | Ysgol Gynradd Cwmglas | Joanne Hershell |
| 3) | Ysgol Gynradd Knelston | Ronald Grove |
| 4) | Ysgol Gynradd Llanrhidian | Laura Jarvis |
| 5) | Ysgol Gynradd Sgeti | Suzanne Berry |
| 6) | Ysgol Gynradd y Trallwn | Y Cyng.Penny Matthews |

**77. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Dyfarnu contract ac awdurdodi rhaglen gyfalaf ar gyfer adeilad newydd ar gyfer Cyfleuster Addysg Mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS) yn y Cocyd**

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau, a oedd yn ceisio cymeradwyo'r cynllun i godi adeilad newydd ar gyfer Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn y Cocyd yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

Ceisiodd yr adroddiad hefyd awdurdod i ddyfarnu contract y gwaith i Dendr Rhif 2, yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Bod y Contract ar gyfer dylunio a chodi adeilad newydd i Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) ar dir sy'n perthyn i'r cyngor ar Heol y Cocyd i'w ddyfarnu i Dendr Rhif 2, yn amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru;

2) Y dylid cymeradwyo'r cynllun cyfalaf fel y’i disgrifiwyd ynghyd â'r goblygiadau ariannol, a hynny’n amodol ar gadarnhad grant a chytundeb â Llywodraeth Cymru.

## 78. Adolygiad FPR7 o Strategaeth Datblygu Bro Tawe.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, oedd yn ceisio cytundeb ar raglen o waith mewn perthynas ag Adolygiad Strategaeth Datblygu Bro Abertawe yn unol â Rheol 7 Gweithdrefn Ariannol y cyngor "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf".

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid cytuno ar y FPR7 newydd a'i oblygiadau ariannol, yn unol ag Adolygiad o Strategaeth Datblygu Bro Abertawe (2013) a bod y gwariant arfaethedig hwn yn cael ei adlewyrchu yn Rhaglen Gyfalaf y cyngor ar gyfer 2018-2019, 2019-2020 a 2020-2021.

2) Y dylid awdurdodi unrhyw gais sy'n cael ei gyflwyno am ganiatâd statudol sydd ei angen i gyflawni'r prosiect.

## 79. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 80. FPR7 - Prosiect Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod - Cais am Grant Cam 2 Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, a oedd yn ceisio cydymffurfio â Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol "Rhaglennu ac Arfarniadau Cyfalaf", i ymrwymo ac awdurdodi amrywiad i gynllun cyfalaf presennol yn y Rhaglen Gyfalaf.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

## 81. Gwaredu tir ym Mharc Felindre, Llangyfelach, Abertawe.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth, a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i waredu tir ym Mharc Felindre i hwyluso datblygiad cyfleuster dosbarthu newydd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ar gyfer gwaredu.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.20 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 18 October 2018 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | Ganol nos, 23 Hydref 2018 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 24 Hydref 2018 |